

## **Enwebiadau i'w hethol i Fwrdd Canolfan Cydweithredol Cymru 2019**

### **John Chown**

Mae John yn gyfrifydd siartredig cymwysedig ac mae wedi bod yn gyfarwyddwr Williams Ross Limited yng Nghaerdydd ers 16 mlynedd. Bu'n ymwneud yn broffesiynol â darparu gwasanaethau sicrwydd, cyngor, cymorth a hyfforddiant yn y sector di-elw i elusennau, undebau credyd a sefydliadau gwirfoddol eraill am nifer o flynyddoedd.

Mae ei weithgareddau gwirfoddol wedi cynnwys:

- Bod yn aelod o fwrdd rheoli Canolfan Cydweithredol Cymru ers dros 14 blynedd.
- Bod yn aelod o fwrdd Grŵp Tai Cynon Taf ers mis Medi 2018.
- Wedi bod yn aelod o fwrdd tair cymdeithas dai wahanol am gyfanswm o fwy na phum mlynedd ar hugain hyd at 2018.

### **Richard Hughes**

Mae Richard yn dod o Gefneithin yn Sir Gaerfyrddin, a dechreuodd ei yrfa ym maes y teledu a'r theatr cyn symud ymlaen i weithio yn y sectorau hamdden, celfyddydau, diwylliant a thwristiaeth mewn llywodraeth leol am 16 mlynedd. Ymgwymerodd Richard â rôl Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen ym mis Hydref 2015 ac mae wedi llywio'r sefydliad i gyfnod newydd o dwf a datblygiad ers iddo gael ei sefydlu. Mae'n goruchwyllo rheolaeth strategol Awen a'i is-gwmni masnachol, sef Awen Trading Ltd., gydag oddeutu 190 o staff ar draws 18 safle gwahanol.

Mae Richard yn Aelod o Sefydliad y Cyfarwyddwyr ac yn aelod llawn o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'n siaradwr Cymraeg rhugl sy'n briod gyda dau o blant, ac mae'n gefnogwr brwd y Scarlets sydd â thocyn tymor.

### **Adrian Roper**

Fe'm ganwyd ym 1955 a symudais i Gymru ym 1962. Mae gennyf ymrwymiad cryf i draddodiadau Cymreig a dyheadau cymuned a thegwch. Rwy'n siarad Cymraeg ar lefel sylfaenol ac rwy'n teithio i bob cwr o'r wlad trwy fy ngwaith.

Rwy'n Brif Swyddog Gweithredol Cartrefi Cymru Co-operative, sef cwmni cydweithredol ac elusen gofrestredig sy'n darparu gofal a chymorth i bobl ag anableddau dysgu. Gwnaethom fabwysiadu gwerthoedd ac egwyddorion cydweithredol yn 2016 a ni yw'r darparwr cydweithredol mwyaf o ofal yn y Deyrnas Unedig. Yn 2012, sefydlais a chadeiriais y fforwm Cydweithredu Cymdeithasol, a gyfrannodd at y broses o ddrafftio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Helpodd y fforwm i greu prosiect Cydweithredu i Ofalu Canolfan Cydweithredol Cymru hefyd. Mae gennyf brofiad personol o ddatblygu cwmni cydweithredol fel sylfaenydd-gyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol ym Mhowys; rwyf wedi bod yn un o ymddiriedolwyr Anabledd Dysgu Cymru ac wedi cadeirio Grŵp Gweithredu Banc Cyhoeddus i Gymru o 2015-19.

Mae gennyf gryn brofiad o lywodraethu a rheoli sefydliadau di-elw ac rwy'n deall yr angen i Gyfarwyddwyr fynnu adroddiadau da, cynnig her adeiladol, gweithredu er budd y sefydliad,

ymddwyn gydag uniondeb, cydnabod gwrthdaro buddiannau a chyfrannu at amgylchedd cydweithredol a chynhyrchiol. Rwyf wedi gweithio'n agos gyda'r Ganolfan am y saith mlynedd diwethaf mewn perthynas â gofal cymdeithasol yn bennaf, ond hefyd wrth hyrwyddo busnesau cymdeithasol a datrysiadau cydweithredol. Rwy'n cefnogi gwaith y Ganolfan yn gryf, a buaswn yn falch iawn o gael y cyfle i wasanaethu fel cyfarwyddwr.

### **Allison Soroko**

Allison Soroko yw Pennaeth Ymgysylltu a Pherchenogaeth ac Ysgrifennydd Cwmni Merthyr Valleys Homes, sef cymdeithas dai trosglwyddo stoc sy'n berchen ar ac yn rheoli dros 4,200 o dai ym Mwrdeistref Merthyr Tudful.

Mae Allison wedi rheoli'r broses o ddatblygu a gweithredu strwythur llywodraethu arloesol yn llwyddiannus sy'n caniatáu i denantiaid a gweithwyr ddod yn aelodau o'r sefydliad. O ganlyniad i hyn, Merthyr Valleys Homes yw'r cwmni cydfuddiannol cyntaf yng Nghymru a berchenogir gan denantiaid a gweithwyr.

Mae Allison yn arbenigo mewn Llywodraethu yn y sector tai. A hithau'n hyrwyddwr llywodraethu da, mae hi wedi cyfrannu at ddatblygu set o Reolau Enghreifftiol ar gyfer Cymru a'r Cod Llywodraethu ar gyfer cymdeithasau tai yng Nghymru. Mae Allison yn frwd o blaid ymgysylltu â thenantiaid a chynnwys gweithwyr, ynghyd â chyfathrebu effeithiol.

### **Helen Wilkinson**

Ganwyd Helen Wilkinson yn Lerpwl, fe'i magwyd yng ngogledd Cymru, astudiodd Gwleidyddiaeth ac Astudiaethau Seneddol ym Mhrifysgol Leeds a dyfarnwyd Cymrodoriaeth Harkness iddi ym 1998. Mae hi wedi gweithio ym maes polisi cyhoeddus, cyfathrebu ac entrepreneuriaeth gymdeithasol ar lefel cyfarwyddwr ers dros ugain mlynedd gydag amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys yr elusennau 4Children a Drugscope yn y Deyrnas Unedig, y felin drafod Demos, a'r Sefydliad Teuluoedd a Gwaith sydd wedi'i leoli yn Efrog Newydd. Mae Helen wedi awduro cyhoeddiadau ar draws portffolio polisi amrywiol, mae'n cynnal ei chwmmi ymgynghori ei hun, bu'n golofnydd a sylwebydd cenedlaethol a gweithiodd fel darlledwr gyda Newyddion a Materion Cyfoes y BBC.

Dychwelodd Helen i ogledd Cymru yn 2010. Arweiniodd waith polisi a dylanwadu Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar wrthdlodi, adfywio, a Pholisi Cydlyniant Ewropeaidd 2014-2020. Bu hefyd yn aelod o fforymau strategol allweddol Llywodraeth Cymru sy'n adrodd i Weinidogion Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Grŵp Cyngorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb, Bwrdd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, y Grŵp Rhanddeiliaid Hawliau Dynol, a'r Panel Adfywio Cenedlaethol.

Daeth Helen yn Brif Weithredwr Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych ym mis Mai 2016 ac fe'i penodwyd i Bwyllgor Cronfa'r Loteri Genedlaethol yng Nghymru ym mis Chwefror 2018. Fe'i penodwyd yn Aelod Annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ym mis Medi 2019.

Mae Helen yn frwdfrydig ynglŷn â sgysiau a arweinir gan y gymuned, mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau, rhoi pobl yn y blaen, ysgogi newid trwy weithredu gwirfoddol a menter gymdeithasol a thrawsnewid gwasanaethau cyhoeddus. **Parhad...**

## **Robin Williams**

Rwyf wedi bod yn aelod o Fyrddau Gweithredol a Strategol Canolfan Cydweithredol Cymru ers blynyddoedd lawer, gan weithio gyda Derek Walker a'r ddau Brif Weithredwr a'i rhagflaenodd. Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Risg ac Archwilio'r Ganolfan ar hyn o bryd.

Bûm yn gyfreithiwr mewn practis preifat am 35 mlynedd, yn ymwneud yn bennaf â rhoi cyngor i 3 Undeb Llafur blaenllaw (GMB, UNITE ac USDAW). Rwyf hefyd yn cynrychioli pobl ledled Cymru a De-orllewin Lloegr mewn achosion Cymorth Cyfreithiol. Ymddeolais yn 2015. Am y 15 mlynedd diwethaf, bûm yn ymwneud y rhan fwyaf o'r amser â phob agwedd ar waith Tribiwnlys Cyflogaeth (gan gynnwys hawliadau Gwahaniaethu). Mae gennyf hefyd brofiad helaeth o faterion Anaf Personol (yn enwedig hawliadau Afiechyd).

Rwyf wedi gallu cynghori'r Ganolfan ar ystod eang o faterion cyfreithiol. Os yw problem gyfreithiol y tu allan i'm profiad ymarferol, gallaf argymhell Cynghorydd addas. Mae'r Ganolfan hefyd wedi elwa o'm cyfraniad at reoli practis cyfreithiol, sef Leo Abse & Cohen, sydd â throsiant a strwythur sy'n debyg i lawer o'r busnesau bach a chanolig a gynorthwyir gan y Ganolfan.

Rwy'n falch o fod yn gysylltiedig â Chanolfan Cydweithredol Cymru. Mae staff y Ganolfan wedi ymrwymo i waith sy'n fuddiol iawn i lawer o gymunedau ledled Cymru, ac eto anaml y mae gwaith o'r fath yn denu'r ganmoliaeth y mae'n ei haeddu. Byddaf bob amser yn gwneud fy ngorau i gefnogi gweithgareddau'r Ganolfan.